



Canllawiau i Blant a Phobl Ifanc sydd â Diabetes sy'n dychwelyd i'r ysgol

Cyhoeddwyd gan Grŵp Ysgolion Rhwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl Ifanc, Mehefin 2020

Disgwylir i bob tîm pediatrig yng Nghymru ddilyn y [Canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Endocrinoleg a Diabetes Pediatrig Prydain \(BSPED\)](#) (Saesneg yn unig) ar 22 Mai 2020, sy'n nodi y gall Plant a Phobl Ifanc sydd â Diabetes ddychwelyd i'r ysgol gyda'u grŵp blwyddyn ysgol, ar yr amod y rhoddir amodau penodol ar waith (gweler yr Atodiad).

Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo plant sydd â diabetes Math 1 i allu dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel, gan gydnabod bod hyn yn dibynnu ar gyrff lleol sy'n gwneud penderfyniadau ar addysg a dewis y rhieni.

Dylai ysgolion gynnal asesiad risg er mwyn paratoi ar gyfer yr adeg pan fydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol, a phenderfynu a ellir cyflawni'r cynllun Gofal Iechyd Unigol y cytunwyd arno ar gyfer plant sydd â diabetes Math 1, yn amodol ar gyrraedd y safonau gofynnol a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i ysgolion wneud pob addasiad rhesymol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni Cynllun Iechyd Unigol plentyn er mwyn i'r plentyn allu dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel yr un pryd â'i gyfoedion.

Dylid trafod yr asesiad risg â'r teulu, ac mae'n rhaid i'r rhieni gytuno bod modd cyflawni'r Cynllun Iechyd Unigol.

Bydd angen adolygu anghenion gofal y plentyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Iechyd yn cael ei gyflawni, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno.

Pethau i'w hystyried ar gyfer asesiad risg

Dylid cynnwys y meysydd gofal canlynol yn yr asesiad risg

- Cynnal profion gwaed glwcos a/neu synhwyrdd gwirio glwcos
- Pigiadau inswlin a phympiau cyflenwi bolws
- Canfod a rheoli cyfnodau hypoglycemig
- Goruchwyllo byrbrydau a chinio yn yr ysgol
- Rheoli unrhyw ymarfer corff os caniateir hynny
- Gwneud trefniadau pan fydd unrhyw absenoldeb staff i sicrhau bod y gofal arferol yn cael ei ddarparu er mwyn cyflawni'r Cynllun Gofal Iechyd
- Mesurau diogelwch, gan gynnwys cynlluniau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer yr ystafell ddosbarth, yr iard ac yn ystod amser cinio ac amser chwarae, cyfleusterau golchi



dwylo/hylendid, offer glanhau, hyfforddi'r staff a'u bod yn hyderus wrth ofalu am ddisgyblion sydd â diabetes math 1, sicrhau bod cyfarpar diogelu personol ar gael pan fydd angen cysylltiad agos (h.y. cynorthwyo i reoli'r diabetes).

Atodiad – crynodeb o ddatganiad BSPED

Mae datganiad sefyllfa BSPED a gyhoeddwyd ar 22 Mai 2020 yn nodi y gall Plant a Phobl Ifanc sydd â Diabetes ddychwelyd i'r ysgol gyda'u grŵp blwyddyn ysgol, oni bai

1. Eu bod yn y grŵp agored i niwed/hynod agored i niwed, sef
 - Eu bod wedi cael trawsblaniad organ solet – aren, iau, pancreas, y galon, neu ysgyfaint
 - Yn derbyn triniaethau ar gyfer canser
 - Bod ganddynt glefyd cronig yr ysgyfaint hirdymor gan gynnwys ffeibrosis systig ac asthma difrifol
 - Bod ganddynt glefyd prin sy'n cynyddu'r risg o gael haint
2. Bod ganddynt symptomau COVID-19 neu mewn cysylltiad/wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar ag unigolion symptomatig
3. Eu bod yn blant sydd â diabetes a chanddynt aelodau o'r teulu sy'n cael eu gwarchod oherwydd eu bod yn agored i niwed/hynod agored i niwed

Ffynhonnell: www.bsped.org.uk/media/1760/bsped-position-statement-on-schools-returning-after-covid-19.pdf